# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 5 Hydref 2004 i'w hateb ar 19 Hydref 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar bwerau deddfwriaethol y Cynulliad. (OAQ38463)

**2. Jeff Cuthbert (Caerffili);** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo a hwyluso ffyrdd o fyw yn iach yng Nghymru. (OAQ38436)

**3. Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar grwpiau cydweithredol yng Nghymru. (OAQ38473)

**4. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ei ymweliadau â phrosiect DAWN ym Mae Colwyn. (OAQ38464)

**5. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff y Prif Weinidog roi adroddiad ar hynt y cytundebau a wnaed gan Rwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy. (OAQ38465)

**6. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i gynnal arolwg cenedlaethol i ddarganfod faint o gefnogaeth sydd i addysg cyfrwng Cymraeg ymhlith rhieni plant 3 oed. (OAQ38462) **W**

**7. Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar Awdurdod Datblygu Cymru. (OAQ38440)

**8. Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â chig sy'n cael ei fewnforio i Gymru, a'i allforio o Gymru, yn anghyfreithlon. (OAQ38474)

**9. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ganfyddiadau adroddiad Comisiwn Richard. (OAQ38476)

**10. David Melding (Canol De Cymru);** A yw Gweinyddiaeth y Prif Weinidog wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar y Mesur Iechyd Meddwl drafft. (OAQ38439) **TYNNWYD YN ÔL**

**11. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ymdrechion ei Lywodraeth i leihau amserau aros y GIG. (OAQ38480)

**12. Tamsin Dunwoody-Kneafsey (Preseli Sir Benfro);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr hyn y mae'r Cynulliad yn ei wneud i hyrwyddo'r defnydd o ffynonellau ynni amrywiol yng Nghymru. (OAQ38479)

**13. Sandy Mewies (Delyn);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. (OAQ38471)

**14. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar bolisïau i helpu busnesau bach i ffynnu ac i dyfu. (OAQ38453)

**15. Alun Cairns (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ailfandio’r dreth gyngor. (OAQ38435)